



Sir Caerdydd
County of Cardiff

**YSGOL Y WERN
HEOL LLANGRANOG/LLANGRANOG ROAD
LLANISIEN/LLANISHEN
CAERDYDD/CARDIFF
CF14 5BL**

Ffôn / Phone 029 20762114

**e-bost/ e-mail : ysgolywern@cardiff.gov.uk
Gwefan/ Website www.ysgolywern.co.uk**

**PENNAETH / HEADTEACHER:
Mr Aled ap Iwan
DIRPRWY BENNAETH / DEPUTY HEADTEACHER:
Miss Elen Reader**

**CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR / CHAIR OF GOVERNORS: Mrs
H. Fernandez -Arias**

Anelwn am y Brig Uchaf

Llawlyfr a Gwybodaeth Cyffredinol 2026-27

General Information Handbook 2026-27

Annwyl Rieni/Ofalwyr

Croeso i Ysgol y Wern

Os ydy'ch plentyn yn ymuno â ni am y tro cyntaf, ga i'ch croesawu chi'n gynnes ac edrychaf ymlaen i gydweithio'n agos gyda chi yn y blynyddoedd sydd i ddod. Os oes plant gyda chi yma'n barod, yna pleser mawr i mi yw adnewyddu'r cysylltiadau clos sydd rhyngom ar hyn o bryd.

Yn y llyfryn hwn ceir gwybodaeth am yr ysgol - ei nôd, amcanion a gweithgareddau.

Tyf hyder mewn ysgol o wybodaeth a dealltwriaeth am ei holl gweithgareddau. Drws agored sydd yn y Wern y gall rhieni gysylltu gyda'r athrawon ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd. Gobeithiaf y bydd ein rhieni yn manteisio ar y cyfle hwnnw i ddod i adnabod y Staff - ein hathrawiaeth a'n gweithgareddau mewn dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng y cartref a'r ysgol fydd fel sylfaen gadarn i'n cyfrifoldeb ni tuag at y plant. Gobeithio y gallwch ein helpu drwy annog eich plentyn i lwyddo yn yr ysgol - bydd eich cefnogaeth chi yn gwneud byd o wahaniaeth. Ymfalchiwn yn safonau cyrhaeddiad uchel yr ysgol ac mae'r ystod o weithgareddau allgyrsiol hefyd yn bwysig i ni, gyda disgyblion yn profi llwyddiant mewn amrywiol feysydd o eisteddfodau'r Urdd i weithgareddau chwaraeon a'r celfyddydau.

Mae'r wybodaeth a geir yn y llyfryn yn gywir ar ddyddiad ei argraffu ond gall newid cyn dechrau neu yn ystod y flwyddyn neu mewn blynyddoedd i ddod.

Darllenwch ymlaen am ragor o wybodaeth. Ni fwriedir y llyfryn hwn i fod yn lle ymweliad â'r ysgol. Mae croeso i chi i ymweld â'r ysgol ar unrhyw adeg i chi gael blas o awyrgylch a bwrlwm yr ysgol brysur hon. Gwerthfawrogwn ganiad ffôn cyn i chi ddod rhag ofn y byddaf yn digwydd bod allan o'r ysgol.

Yn ddidwyl

Aled ap Iwan

Aled ap Iwan
Pennaeth

Gweledigaeth Yr Ysgol

Ein gweledigaeth yn Ysgol Y Wern yw darparu ysgol lle mae plant, rhieni, athrawon, llywodraethwyr a'r gymuned yn medru gweithio gyda'i gilydd i gynnig awyrgylch groesawgar, diogel, gofalus a gweithgar i bob unigolyn.

Ceisiwn ddathlu ein llwyddiannau gyda'n gilydd fel cymuned ysgol gyda phob unigolyn yn werthfawr ac yn cael parch.

Ceisiwn annog yn yr holl gymuned ysgol parch tuag at ein hiaith a'n treftadaeth ein hunain yn ogystal ag ieithoedd a diwylliannau eraill.

Mae lles ac addysg y plant yn ganolog i bob penderfyniad a wneir yn Ysgol y Wern. Ceisir darparu cwrwlwm cyfoethog, cytbwys gyda digon o adnoddau i hybu chwlfrydedd naturiol bob plentyn.

Ein nôd fydd bod bywydau y rheiny fydd yn gadael Y Wern wedi eu cyfoethogi a'u ehangu drwy eu profiad gyda ni ac y bydd pob plentyn gyda'r gallu a'r awydd i ddysgu mwy ac i wynebu sialens eu bywydau yn y dyfodol.

Corff Llywodraethol

Mae'r Llywodraethwyr yn cydweithio gyda'r Pennaeth i:

- gytuno ar amcanion a gwerthoedd yr Ysgol
- benderfynu'r hyn sydd i'w ddysgu
- sefydlu safonau disgyblaeth
- adolygu cynnydd yr Ysgol
- gyfweld ac apwyntio athrawon
- benderfynu sut i wario cyllid yr Ysgol a chymeradwyo cynlluniau datblygu'r Ysgol
- roi gwybodaeth i rieni am yr Ysgol
- lunio cynlluniau gweithredu i sicrhau gwelliannau yn dilyn arolygon yr Ysgol

Mae llywodraethwyr Ysgol yn:

Rhieni

Athrawon yn yr Ysgol

Cynrychioli'r Awdurdod Addysg

Gweithio yn yr Ysgol ond nid fel athro/athrawes

Gyfetholedig

Mae **Rhiant Lywodraethwr** yn:

Rhiant i blentyn yn yr Ysgol

Cael ei ethol gan rieni'r Ysgol

Gwasanaethu, fel llywodraethwyr eraill, am bedair mlynedd

Cadeirydd	Mrs H Fernandez-Arias
Is-Gadeirydd	Mr N. Brown
Athrawon	Mrs H Walker Miss E Reader
Staff Ategol	Mrs K Richards
Cynrychiolwyr Rhieni	Mrs Hannah Jones Mrs Hayley Floyd Mr Jamie Hallett Mrs Rebecca Owen Ms Fiadhna Murphy McEvoy
Aelodau'r Cyfetholedig:	Mrs Nia Williams Mr John Rawnsley
Cynrychiolwyr AAL	Cyngor Caerdydd Mr Mike Landers Ms Bethan Proctor
Clerc i'r Llywodraethwyr	Mrs Hannah Carlson
Awdurdod Addysg:	Neuadd y Sir Glanfa Iwerydd Caerdydd Tel 029 20872000

Hanes Yr Ysgol

Sefydlwyd Ysgol y Wern yn 1981 fel canlyniad i dwf addysg Gymraeg yng Nghaerdydd. Lleolwyd yr ysgol ar safle hen Ysgol Fabanod Cefn Onn ym mhentref Llanisien, Gogledd Caerdydd, a bwriedwyd i'r ysgol wasanaethu yr ardal rhwng Manor Way ac Eastern Avenue.

Erbyn hyn mae'r ysgol wedi tyfu a tua 670 o blant ar y cofrestri wrth i fwy a mwy o rieni weld gwerth mewn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 22 ystafell ddosbarth gennym sy'n cynnwys Meithrin a 21 dosbarth prif ffrwd. Yn ogystal ag athrawon, pennaeth a dirprwy bennaeth mae gennym nifer o gynorthwyr

dosbarth. Mae gan yr ysgol 3 aelod staff Swyddfa a goruchwylwyr amser cinio.

Mae Ysgol y Wern yn Ysgol Ddyddiol Sirol Gynradd Gymraeg. Gall unrhyw rieni sy'n ystyried anfon eu plant i'r ysgol ymweld â hi trwy drefnu gyda'r Pennaeth ymlaen llaw.

Mae'r ysgol yn rhan o rwydwaith Awdurdod Addysg Caerdydd ac yn dod o dan gynllun Dirprwyo Ariannol Lleol y Sir. Golyga hyn fod yr ysgol yn rheoli cyllideb yn fewnol.

Mae gennym gymysgedd o feysydd gwyrdd ac alleiniau caled sy'n cyfrannu at y profiadau gwych mae'r disgyblion yn derbyn. Mae ardal arbennig wedi ei adeiladu ar gyfer gemau. Mae gan ein plant bach eu meysydd dysgu awyr agored hwy eu hunain. Defnyddir y meysydd hyn ar gyfer eu gwersi yn ogystal â rhoi cyfle i'r plant ddefnyddio'u dychymyg yn ystod sesiynau chwarae rhydd. Mae yma Ysgol y Goedwig a Gardd Glyndŵr sy'n cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer gweithgareddau ac i astudio byd natur a garddio.

Nod ac Amcanion

Yn Ysgol y Wern mae pob disgybl gyfwerth â'i gilydd ond derbyniwn hefyd bod plant yn wahanol i'w gilydd a chanddynt yr hawl i lwyddo mewn gwahanol ffyrdd. Parchwn bob disgybl a cheisiwn ddysgu'r plant i ddatblygu drwy barchu cred a diwylliant pobl eraill yn seiliedig ar eu parch tuag at y ddwy iaith a diwylliant sydd yn eu gwlad nhw'u hunain. Disgwyliwn i'r plant weithio'n galed, i fwynhau bywyd ysgol ac hefyd i gadw rheolau'r ysgol. Ein bwriad yw eu datblygu yn blant sy'n medru gweithio'n annibynnol i ymchwilio'n dda ond i gydweithio â'i gilydd ac i barchu a gofalu am ei gilydd.

Yr Iaith Gymraeg

Ysgol Gymraeg ei chyfrwng yw hon a Chymraeg yw'r cyfrwng cyfathrebu i'r plant ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Cymraeg yw iaith y dosbarth yr iard a'r gweithgareddau allgyrsiol. Ymdrechwn, ar bob cyfle i hyrwyddo a chyfoethogi iaith y plant, a'u hymwybyddiaeth o'u diwylliant Cymreig, boed y cyd-destun yn gwricwlaidd, cymdeithasol neu'n allgyrsiol. Cyfrannwn at weithgareddau Cymraeg yn y gymuned leol, o fewn y Sir ac yn Genedlaethol (e.e yr Urdd.) Fel rheol, disgwylir y bydd disgyblion, ni waeth beth yw iaith y cartref, yn gallu trosglwyddo'n hawdd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac y byddant wedi cyrraedd, erbyn diwedd eu cyfnod yn Y Wern, yr un safon yn Saesneg â disgyblion mewn ysgolion sydd, yn bennaf, yn rhai cyfrwng Saesneg. Datblygwn yn ein plant falchder a mwynhad o'i defnyddio ymhob rhan o'u bywydau.

Cyfathrebir yn uniaith Gymraeg tan Blwyddyn 3. Yn yr Adran Iau datblygir dwyieithrwydd y plant, a chyflwynir Saesneg ar draws y cwricwlwm o Flwyddyn 3 ymlaen.

Mae'r Ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

GWYBODAETH GYFFREDINOL

Trefniadau Derbyn Plant i'r Ysgol

Mae dalgylch pendant i'r ysgol ac nid oes dewis gyda'r Pennaeth pa blant fydd yn dod i'r ysgol. Rhif derbyn yr Ysgol yw **90** o blant a phenderfynir arnynt gan yr Awdurdod Addysg Leol. Gweler Polisi Derbyn i Ysgolion am fwy o fanylion.

Gwahoddir i'r rhieni gysylltu â'r Ysgol os ydynt yn bwriadu i'w plentyn gael ei dderbyn i Ysgol y Wern. Fe all rhieni ddanfôn eu plant i un o Gylchoedd Chwarae Mudiad Ysgolion Meithrin y brifddinas os dymunent, cyn eu danfôn i Ddosbarth Meithrin Ysgol y Wern. Cânt ddechrau yn Y Feithrin yn y tymor ar ôl iddynt droi'n dair mlwydd oed. Gwahoddir rhieni i gyfarfod yn ystod y tymor cyn i'w plant ddechrau yn Y Feithrin.

Dechreuir y plant yn yr ysgol yn llawn amser ym Mis Medi'r flwyddyn y byddant yn bump oed. Byddant yn mynychu'r ysgol drwy'r dydd. Y Sir yn unig sy'n penderfynu ar y mewnlifiadau. Gwahoddir rhieni i gyfarfod yn ystod y tymor cyn i'w plentyn ddechrau yn yr Ysgol er mwyn cwrdd â staff y Dosbarth Derbyn, y Pennaeth a'r Dirprwy, cael sgwrs anffurfiol dros goffi ac i glywed am fywyd yr Ysgol gan ddisgyblion Bl. 6.

Plant sy'n Ymuno ar Adegau Eraill o'u Haddysg

Rhoddir y cyfle i blant sy'n dechrau'r Ysgol o fewn blwyddyn Ysgol arall i ddod i ymweld â'r Ysgol a threulio amser gyda'u dosbarth newydd (os dymunent). Cewch y cyfle i drafod addysg flaenorol ac anghenion eich plentyn gyda'r Pennaeth. Byddwn yn trafod sut y medrwn helpu eich plentyn orau i ymgartrefu yn yr Ysgol. Rhoddir 'ffrindiau' arbennig iddynt i edrych ar eu holau yn eu dosbarth newydd. Rhoddwn gyfle i chi gwrdd â'r athro/athrawes i drafod sut mae eich plentyn wedi ymgartrefu yn yr Ysgol. Os yw'r plentyn yn oedran statudol (h.y. yn mynychu Ysgol Saesneg yn barod) heb fod yn addysg Gymraeg o'r blaen, ceir y cyfle i fynd i Uned Drochi Sir Caerdydd am dymor neu fwy, 4 diwrnod yn yr Uned Iaith a diwrnod yn y 'fam' Ysgol sef Ysgol y Wern.

Maint Dosbarthiadau 2026 - 2027

Derbyn	-	67
Blwyddyn 1	-	88
Blwyddyn 2	-	69
Blwyddyn 3	-	90

Blwyddyn 4	-	71
Blwyddyn 5	-	86
Blwyddyn 6	-	90

ORIAU'R YSGOL

PLANT BACH	IAU
8.50 - 10.30	8.50 - 10.30
EGWYL	EGWYL
11.00 – 12.00	11.00 - 12.30
CINIO	CINIO
1.15 -2.30	1.30-3.20
EGWYL	
2.40- 3.20	

Disgwyliwn i rieni godi'r plant yn brydlon os ydynt yn dod i'r ysgol. Ni ddylid gadael y plant yn yr ysgol yn rhy fuan yn y bore gan nad oes goruchwyliaeth ar eu cyfer. Fe fydd drysau dosbarthiadau yn agor am **8.40 a.m** Disgwylir bod y plant yn brydlon yn y bore i gyrraedd rhwng **8.40 a.m ac 8.45 a.m**. Mae'r ysgol yn cau am **3.20pm**. Nid yw hi'n deg i'ch plentyn nac i drefniadau'r ysgol os bydd y casglwr yn hwyr.

Gwaith Cartref

Gosodir gwaith cartref yn rheolaidd. Mae pob math o waith cartref yn bwysig; nid gwaith ysgrifenedig yn unig. Mae ymchwilio, darllen, dysgu geirfa, rhestri sillafu, dysgu tablau a gwneud gwaith cartref ymarferol yn hollbwysig. Gwerthfawrogir cefnogaeth y rhieni i oruchwyllo bod y disgyblion yn cwblhau eu gwaith cartref.

Trefniadau ar Gyfer Lles Gyffredinol y Plant/Ethos a Gwerthoedd Yr Ysgol

Mae angen rheolau clir gweithredol ar bob cymdeithas er mwyn diogelu pobl ac eiddo, ac i sicrhau trefniadaeth effeithiol. Seilir y rheolau hyn ar barch at bobl eraill. Yr athrawon dosbarth sy'n disgyblu plant i ddechrau ac yna'r Pennaeth. Fodd bynnag, ceir adegau pan fydd angen i ni roi cosbau a gofynnwn am eich cefnogaeth yn hyn o beth. Mae copi o'n polisi disgyblaeth gan gynnwys y polisi gwrth-fwlian ar gael oddi wrth y Pennaeth. Y gosb eithaf yw cyfnod o waharddiad. Rydyn fel ysgol wedi cytuno â'r

Pum Rheol Aur Ysgol y Wern

- Siarad Cymraeg
- Parchu oedolion
- Bod yn ffrindiau

-
- Gwneud ein gorau glas
 - Ymfalchio yn ein hysgol

Gwerthoedd yr Ysgol

Parch

Cymreictod

Hapusrwydd

Cydweithio

Tegwch

Dengys y rhestr canlynol y rheolau sy'n berthnasol i'r ysgol a gwerthfawrogwn cydweithrediad rhieni wrth geisio eu cadw.

Rheolau'r Ysgol

- Mae'r ysgol yn dechrau am **8.50am** bob bore.
- Nid oes rhedeg i fod yn y coridor a'r plant i gerdded fesul un.
- Ni fydd chwarae ar y cae yn ystod amser tywydd gwael.
- Disgwylir cwrteisi wrth y plant tuag at oedolion a chyfoedion. ee wrth y drysau ag ati.
- Ni ddisgwylir i'r plant ddod â theganau i'r ysgol oni bai i'r athrawon ofyn amdanynt ymlaen llaw.
- Disgwylir i'r disgyblion barchu amgylchedd yr Ysgol yn enwedig y toiledau a defnyddio'r papur ty-bach at ei iawn bwrpas.
- Rhaid meithrin ymddygiad cwrtais bob tro.
- Ni chaniateir i unrhyw blentyn adael yr ysgol ar ben ei hun heblaw bod llythyr wedi ei ddanfôn gan riant.
- Rhaid i rieni roi eglurhad ysgrifenedig neu alwad ffôn ynglyn ag absenoldeb plentyn/plant o'r ysgol i'r Swyddfa.
- Nid yw gwisgo gemwaith yn cael ei annog o gwbl. Cyfrifoldeb y plentyn yw gemwaith a rhaid eu tynnu i ffwrdd gogyfer ymarfer corff a chwaraeon.
- Ni ddylai plant ddod ag eitemau peryglus i'r ysgol.

Mae pob dosbarth yn mynd drwy'r broses o greu a thrafod rheolau penodol ar gyfer eu dosbarth pob blwyddyn. Cysylltir y rhain â gwerthoedd yr ysgol. Rydyn yn ystyried 'llais y dysgwr' yn bwysig.

Ymddygiad a Disgyblaeth

Bydd y Pennaeth a'r staff yn gwneud eu gorau i greu ysgol hapus i ddisgyblion Ysgol y Wern. Un o brif amcanion ein hysgol yw sicrhau bod pob aelod o gymuned ein hysgol yn teimlo bod gwerth iddynt, eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn cael eu trin yn deg ac yn dda. Rydyn ni'n hybu gofal am ein gilydd ac yn ymddiried yn ein gilydd. Mae polisi Ymddygiad a Disgyblaeth yr Ysgol wedi'i gynllunio er mwyn hyrwyddo pawb i fyw a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd ddiogel a chefnogol.

Ein nôd yw helpu eich plant i ddatblygu'n blant hyderus, moesgar, amyneddgar, ymchwilgar a charedig. Credwn drwy annog a chanmol plant y mae modd cynyddu llwyddiant a chymhelliant.

Ymweliadau Addysgiadol

Mae plant yn mwynhau ymweld â llefydd ac maent yn dysgu llawer o brofiadau uniongyrchol. Mae gennym raglen sylweddol o ymweliadau addysgol sy'n gysylltiedig â meysydd gwahanol o'r cwricwlwm. Mae'n angenrheidiol i ofyn am gyfraniad gwirfoddol oddi wrth pob disgybl os yw'r weithgaredd i ddigwydd. Mae modd trafod â'r Pennaeth yn gyfrinachol os oes anhawster. Ein nod yw cynnig cyfle cyfartal i bob disgybl. Mae gan yr ysgol hawl i ganslo'r weithgaredd os na cheir digon o arian.

Traffig

Mae problemau traffig enfawr tu allan i'r ysgol. Mae'n bwysig bod rhieni yn parcio'n ofalus - nid parcio ar draws dreifiau cymdogion yr ysgol na pharcio'n ddwbl. Ni chaniateir i rieni fynd â char ar hyd Llangrannog Place yn ystod amser gollwng a chasglu. Gofynnwn hyn er diogelwch ein cerddwyr. Mae'n bwysig er lles y plant i gadw tu mewn i'r ffiniau hyn os gwelwch yn dda. Dim parcio tu mewn i ffiniau'r ysgol ond ar adeg o argyfwng. Mae gennym reiliau ar gyfer beiciau ar iard yr ysgol.

Polisi Dim Ysmygu

Gweithredir polisi Dim Ysmygu yn yr Ysgol nac ar dir yr Ysgol.

Dim Cŵn

Ni chaniateir cŵn ar dir yr ysgol

Y Drefn o Wneud Cwyn

Os oes unrhyw gwyn rhaid cysylltu gyda'r Pennaeth yn y lle cyntaf. Fe fydd y Pennaeth yn gwneud pob ymdrech i ateb y gwyn yn foddhaol. Os nad ydych wedi eich bodloni, rhaid ail drafod gyda'r Pennaeth. Os ydych yn dal heb eich bodloni, mi ddylech gysylltu gydag un o'r Rhiant Llywodraethwyr a/neu Cadeirydd y Corff Llywodraethol. Mi fydd y Llywodraethwyr yn edrych i mewn i'r mater ac yn gwneud eu gorau i ateb y gwyn ac yna adrodd nôl i chi. Yn y pendraw os nad ydy'r Pennaeth na'r Corff Llywodraethol yn eich bodloni, mi ddylech gysylltu â'r Swyddfa Cyfarwyddwr Addysg (Adran Gwasanaethau Disgyblion). Mae Polisi Cwyn ar gael ar wefan yr ysgol.

Polisi Aml-Ddiwylliannol - Datganiad

Mae Ysgol y Wern yn sicrhau y bydd ethos yr ysgol yn rhoi i'r plant yr amgylchedd iawn i dyfu'n aelodau o gymdeithas aml-ddiwylliant gan barchu eraill a dangos diddordeb yn eu buddiannau. Mae'n bwysig eu cynorthwyo i barchu ffyrdd eraill o fyw; i'w gwneud yn ymwybodol fod ffyrdd o fyw moesol a bwriadol sydd yn gyffredin i bob cenedl a diwylliant; ac i fod yn garedig a thrugarog wrth bawb beth bynnag fo'u cefndir diwylliannol.

Ymwelwyr i'r Ysgol

Mae croeso i ymwelwyr yn yr ysgol dim ond iddynt ymweld â'r Swyddfa wrth ddod i mewn. Mae system diogelwch ar gael er mwyn cael mynediad i'r ysgol. Gofynnir i ymwelwyr wisgo bathodyn.

Yn ystod y dydd, fe ofynnir i bob ymwelydd geisio parcio ym maes parcio ymwelwyr os oes lle. Hefyd, os oes cyfarfodydd yn y nos neu ar benwythnos gellir parcio ar yr iard. **Nid oes hawl gan rieni barcio ym maes parcio'r ysgol i ollwng neu gasglu eu plant.**

Yr Heddlu

Mae croeso bob amser i'r Heddwys Cymunedol ymweld â'r ysgol. Croesawir ef/hi i siarad â'r plant i arddangos deunydd sy'n tynnu sylw'r plant, at bob elfen o ddiogelwch.

Nyrs

Ni fydd nyrs yn ymweld â'r ysgol yn ystod y flwyddyn i archwilio am llau yn y pen. Mae'r cyfrifoldeb hyn yn nwylo pob rhiant. Fe fydd y nyrs yn gweld plant y Dosbarth Derbyn i gyd yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Diogelwch yn yr Ysgol

Mae pob stafell â larwm iddi ac mae storfeydd yr ysgol ar yr un system. Mae'r ystafelloedd tu allan â chysylltiadau electroneg â'r prif swyddfeydd. Mae'r gatiau yn cael eu cau yn ystod y dydd ac mae'r giât rhwng yr iard â Rhodfa Templeton yn cael ei chloi. Mae cyflenwad da o gamerau (CCTV) mewn mannau strategol o gwmpas yr adeilad yn allanol a thu mewn ac amgylchynir tir yr ysgol gan ffens. Mae mesurau diogelwch wrth y drysau hefyd. Cedwir y drysau allanol dan glo bob amser.

Gofynnwn i bob riant ddefnyddio'r brif fynedfa os yn casglu plentyn yn ystod y dydd. Rhaid i bob ymwelydd arwyddo mewn ac allan gan gydnabod eu bod wedi darllen ein gweithdrefnau diogelu. Swyddion Diogelu yr ysgol yw Mr Aled ap Iwan(Uwch Berson), Mrs Helen Walker a Miss Elen Reader. Mae'n amodol i bob aelod o

staff gael gwiriad GDG (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) cyn iddynt ymuno â'r ysgol.
Trefnir dril tân yn rheolaidd.

Tai Bach

Mae gan yr Ysgol ddigon o dai bach i'r disgyblion yn y prif adeilad. Mae'r cyfleusterau yn addas ar gyfer oed y plant sy'n eu defnyddio. Ceir tai bach ychwanegol at ddefnydd staff ac ymwelwyr yn unig. Glanheuir y tai bach yn ddyddiol.

Cymdeithas Rieni ac Athrawon (CRhA)

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rhieni ac Athrawon gref, sydd wedi'i chofrestru fel Elusen.

Amcan y Gymdeithas yw: -

Hyrwyddo addysg y plant sy'n mynychu'r Wern trwy ddarparu a chynorthwyo i ddarparu cyfleusterau a manteision addysg (na ddarperir gan yr AALI) ac i gyd-fynd a hynny hyrwyddo:

- (a) perthynas ehangach rhwng y staff, y rhieni a phobl eraill sy'n gysylltiedig â'r ysgol.
- (b) gweithgareddau sy'n cefnogi'r ysgol ac addysg y disgyblion.
- (c) codi a chasglu arian i'r ysgol.

Bydd gweithgareddau'r Gymdeithas er lles disgyblion yr ysgol yn unig. Croesawir rhieni newydd a gwerthfawrogi eu cefnogaeth.

Gwisg Ysgol

Mae gan yr Ysgol wisg swyddogol. Gall rhieni brynu gwisg o siop **YC Sports, Crwys Road 02920 693653** neu ar-lein **www.ycschoolwear.co.uk**.

Trowsus /sgert/pinaffor lwyd.
Crys Polo gwyrdd tywyll neu gwyn
Siwmpwr/Crys Chwys Gwyrdd Tywyll gyda bathodyn yr ysgol
Ffrogiau cotwm gwyrdd a gwyn-ar gyfer yr Haf

Gofynnir i chi roi enw ar bob dilledyn os gwelwch yn dda.

Esgidiau- esgidiau du/tywyll

Nid yw'r ysgol yn caniatáu toriadau gwallt eithafol a allai dynnu sylw gweddill y plant.

Gwisg ar Gyfer Addysg Gorfforol

Gwersi Tu Allan: Rhaid gwisgo trainers neu sgidiau addas.
Rhaid gwisgo dillad addas.

Gwersi Tu Mewn: Nid oes angen esgidiau.
Rhaid gwisgo dillad addas.

Mae gwersi Addysg Gorfforol yn gyfreithiol a rhaid gwisgo dillad addas er mwyn diogelwch. Rhaid eu labelu. Gellir prynu crys t yr ysgol o **YC Sports**.

Gemwaith

Nid yw'r ysgol yn annog gwisgo gemau oherwydd maent yn medru achosi damweiniau neu greu anhapusrwydd.

Os oes tyllau yng nglustiau plant, caniateir 'studs' yn unig. Fe fydd yr ysgol yn gofyn i'r plant eu tynnu allan cyn gwneud rhai gweithgareddau Ymarfer Corff. Os yw eich plentyn yn mynnu cael clustdylsau a wnewch chi sicrhau bod hyn yn digwydd ar ddechrau gwyliau'r haf fel bo ganddynt y chwe wythnos ofynnol cyn iddynt ddod yn ôl i'r Ysgol ym mis Medi.

Diogelwch Haul

Anogir plant i wisgo hetiau haul a gofynnir i rieni roi eli haul ar eu plant cyn dod i'r Ysgol. Gall y plant ddod ag eli haul gyda nhw i'r Ysgol a'i rhoi arnynt eu hunain.

Gwersi Nofio

Trefnir gwersi nofio blynyddol ar gyfer plant Blwyddyn 4 am bythefnos. Rhaid i'r plant i ddod â lliain sychu a gwisg nofio. Fe dderbyniwch fwy o fanylion ar yr adeg.

Cyswllt Cynradd

Mae'r ysgol â chysylltiad clos gyda'r Ysgolion Meithrin - trwy wahoddiad i'r plant ddod i mewn i'r ysgol cyn iddynt gychwyn - am fore cyfan. Mae'r ysgol yn llythyru â'r cartrefi cyn i'r plant ddechrau.

Mae cysylltiadau pendant a chlos hefyd rhwng yr ysgol ag Ysgol Gyfun Glantaf - drwy gyfarfodydd, ymweliadau a chysylltiadau cwricwlaidd.

Tostrwydd

Ni ddisgwylir plentyn yn yr ysgol os ydynt yn dost. Gofynnwn i chi gadw eich plentyn adref **am 48 awr** yn dilyn y digwyddiad olaf o chwydu/dolur rhydd.

Os fydd eich plentyn yn dost yn yr ysgol, fe fyddwn yn cysylltu â chi. Rhaid, felly, cael rhifau ffôn brys er mwyn ein galluogi i wneud hynny. Mewn achosion o fethu cael gafael mewn rhiant mi fyddwn yn cysylltu â'r rhifau eraill sydd ar y ffurflen. Sicrhewch felly bod o leiaf 3 rhif ffôn ar y ffurflen a'u bod wedi rhoi caniatad i'r Ysgol gysylltu gyda nhw pe bai angen.

Moddion/Tabledi

Mae'r ysgol yn dilyn Polisi Iechyd Sir Caerdydd ynglyn â moddion. Yn gyffredinol, cedwir pypiau asthma ac Epipens yn yr ysgol os ydynt wedi'u labelu'n addas. Disgwylir i'r plant weinyddu pypiau asthma nhw eu hunain.

Disgwylir i rieni lenwi ffurflen gais i'r Ysgol roi meddygyniaeth pe bai angen. Rhaid cofnodi pob meddyginiaeth a roddir ar y ffurflenni priodol.

Damweiniau

Gall ddamweiniau ddigwydd yn yr ysgol ac ar y cyfan, mae'r ysgol yn delio â nhw. Weithiau, yn dibynnu ar y math o ddamwain, cewch wybod am hyn gan yr ysgol. Mae llyfr damweiniau priodol gan yr ysgol ac aelodau o staff wedi hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf.

Os ydy'r ddamwain yn fwy difrifol fe fydd yr ysgol yn cysylltu â chi neu gyda'r person gyda rhif ffôn brys i wneud trefniadau i ddelio gyda'r sefyllfa. Os bydd angen fe fydd yr ysgol yn gweithredu trefniadau brys yr ysgol yn ôl eu polisiau ac yn cysylltu â chi.

Rhifau Ffôn Argyfwng- dylid sicrhau bod y rhifau yma yn cael eu diweddarau!

Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS)

Trefnir HMS a datblygiadau cwricwlaidd o fewn y flwyddyn addysgol. Ar y diwrnodau yma mi fydd yr ysgol ar gau ar gyfer y disgyblion. Pob blwyddyn ceir 6 Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd.

Dyddiadau 2026 – 27:

- **1.9.26**
- **25.9.26**
- **7.10.26**
- **4.1.27**

-
- 19.7.27
 - 20.7.27

Gweithgareddau Allgyrsiol/Clybiau'r Ysgol

Ystyrir bod gwaith allgyrsiol yn cyfoethogi datblygiad plentyn cyfan ac yn ehangu eu horiau cyswllt â'r Gymraeg. Yn Ysgol y Wern rydyn yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol sy'n codi hunan-barch, sy'n ehangu profiadau, sy'n datblygu hyder ac sy'n rhoi profiadau lle y gellir rhannu llwyddiant.

Gall ein plant fwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon megis rygbi, pêl-droed, criced, pêl-rwyd, dawns a phrofiadau cerddorol di-ri gan gynnwys cerddorfa, gwersi ffidil, cello, telyn, pres, clarinet, côr, Clwb Cerdd a Drama, Clwb Urdd, Clwb Celf, Clwb Garddio, Clwb Animeiddio, Clwb Radio. Rydyn yn Ysgol Eco ac felly mae'r Clwb Eco yn gweithredu'n effeithiol iawn a chyfrannu llawer tuag at warchod yr amgylchedd yn ogystal â'r clwb garddio.

Clwb Brecwast

Cynhelir Clwb Brecwast am ddim pob bore. Bwriad y cynllun yw hybu iechyd plant a'u gallu i ganolbwyntio er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o godi safonau dysgu a chyflawniad. Am resymau iechyd a diogelwch rhaid i ni gadw at nifer penodol o blant yn ddyddiol. Fe fydd y Clwb yn dechrau am **8.20a.m.**; ni fydd mynediad i unrhyw blentyn sy'n cyrraedd cyn yr amser yma o dan unrhyw amod.

Fe fydd drysau y clwb brecwast yn cau am **8.30a.m.**; does dim mynediad i'r clwb brecwast ar ôl **8.30a.m.** Mae staff y clwb yn gorfod tacluso a glanhau'r neuadd erbyn dechrau diwrnod Ysgol. Fe fydd y plant yn ymadael â'r Clwb i fynd i'w dosbarthiadau am **8.40 a.m.** Mae athrawon ar ddyletswydd am **8.40a.m.**

Nid yw brecwast am ddim yn hawl. Gallwn fel Ysgol wrthod unrhyw blant ar sail bod eu hymddygiad yn annerbyniol. Disgwylwn i'r plant ddangos moesgarwch wrth y bwrdd. Rhaid derbyn llythyr os fydd eich plentyn yn peidio â dod i'r ClwbBrecwast er mwyn i ni fedru cynnig lle i blentyn arall.

Clwb Carco

Cynhelir Clwb Carco cyn ac ar ôl oriau ysgol ar y safle. Cwmni preifat Clwb Carco sydd yn gyfrifol am y clwb. Os am fwy o fanylion cysylltwch â'r cwmni **-07866594744**

Cerddoriaeth

Cynigir gwersi cerddoriaeth gan athrawon peripatetig yn ogystal ag athrawon dosbarth.

Ceir **cello** o Flwyddyn 3 i fyny.
Ceir **ffidil** o Flwyddyn 3 i fyny.

Ceir **telyn** o Flwyddyn 3 i fyny.
Ceir **pres** o Flwyddyn 3 i fyny.
Ceir **clarinet** o Flwyddyn 4 i fyny.
Mae'n ofynnol i rieni dalu am y gwersi hyn. Am fwy o wybodaeth
cysylltwch â Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro.

Cinio Ysgol a Bwyta'n iach

Coginir cinio poeth yn yr ysgol ar gyfer canol dydd ond gall plant.
ddewis naill ai cinio ysgol neu i ddod â brechdanau eu hunain.
Serch hynny, rhaid nodi, oherwydd rhesymau diogelwch, ni
chaniateir dod â photeli gwydr i'r Ysgol. Ar gyfer yr awr ginio
cyflogir cynorthwyr cinio a Chynorthwyr Dysgu Dosbarth i
edrych ar ôl y plant. Mae'r Ysgol yn aelod o 'Rhwydwaith Ysgolion
lach' ac yn rhoi pwyslais mawr ar fwyta'n iach ac ymarfer
rheolaidd.

Mi fydd angen i chi archebu prydau yn wythnosol ar-lein.

Mae prydau ysgol am ddim i bob disgybl ar hyn o bryd. Gallwch
weld bwydlen gyfredol Ysgolion Cynradd a dewis cinio eich
plentyn trwy fewngofnodi i'ch cyfrif ParentPay. Rhaid archebu
erbyn **7.30 a.m.**

Egwyl

Rydyn yn deall pwysigrwydd o yfed **dŵr** yn aml yn ystod y dydd.
Anogir y plant i fynd adre â'u poteli i'w glanhau. Ni ddylai plentyn
ddod i fewn ag unrhyw fyrbryd sy'n cynnwys cnau gan fod sawl
plentyn yn yr ysgol yn dioddef o alergedd difrifol.

Llaeth am ddim

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu rhoi llaeth am ddim i
bob plentyn yn y Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2.

Presenoldeb a Phrydlondeb

Mae presenoldeb cyson a phrydlon yn angenrheidiol i addysg yr
unigolyn ac i rediad esmwyth y dosbarth a'r ysgol gyfan.
Ymdrechwn i gadw presenoldeb yn uchel ac i sicrhau bod rheswm
dilys dros unrhyw absenoldeb.

Rhaid i ysgolion, yn unol â'r gyfraith gadw cofnod gofalus o
bresenoldeb cofnod. Mae caniatad i blentyn fod yn absennol am y
rhesymau canlynol:

Salwch, triniaeth feddygol neu ddeintyddol

Argyfwng teuluol

Rhaid cysylltu gyda'r ysgol drwy alwad ffôn neu lythyr i esbonio'r
absenoldeb. Cyhoeddir yr ystadegau yn flynyddol. Rydyn fel
Ysgol yn ddiolchgar i'r rhieni am sicrhau fod y rhifau absenoldeb
yma yn parhau yn isel.

Heb ganiatad fe fydd absenoldeb eich plentyn yn un di-awdurdodedig

Absenoldebau

Fel pob ysgol arall, rhaid i ni ddangos y gwahaniaeth rhwng absenoldebau â chaniatâd ag absenoldebau heb ganiatâd. Rhaid felly, i ni dderbyn llythyr neu alwad ffôn oddi wrth y rhieni/gofalwyr yn egluro hyn. Gofynnwn i chi wneud hyn erbyn 9.15 a.m. Rhaid cofio bod yr ysgol yn dechrau am **8.50am** yn brydlon.

Gadael Yr Ysgol Yn Ystod Y Dydd

Disgwylir llythyr/ebost yn egluro'r sefyllfa i athro/athrawes ddosbarth cyn gellid gwneud hyn.

Newid Trefniadau Yn Y Nos

Rhaid cael llythyr oddi wrth y rhieni cyn gellid newid trefniadau yn y nos. Diogelwch sydd wrth wraidd hyn.

Cwrdd ag Athrawon

Mae cyfle i gwrdd â'r athrawon unwaith bob tymor. Fe fydd rhaid cytuno ar amser cyfleus i bawb ar noson benodedig. Yn ogystal â hyn cynhelir Noson Gyflwyno ym mis Medi i'r athrawon egluro gwaith a gweithgareddau'r flwyddyn ar gyfer y dosbarth. Fe fydd adroddiad cynnydd llawn ar eich plentyn ar ddiwedd blwyddyn. Mae polisi 'drws agored' gan yr ysgol. Dim ond ffonio i drefnu amser cyfleus sydd angen.

Chwaraeon

Anelwn ar gyd-bwysedd rhwng campau sydd yn rhoi cyfle i bawb gymryd rhan a'r cyfleon eraill mewn cystadlaethau rhwng ysgolion. Yn y Wern trefnwn nifer o gystadlaethau yn y campau arferol sef pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, hoci, athletau, nofio, criced, dawnsio a gymnasteg. Credwn fod chwaraeon yn rhoi cyfle i ddisgyblion o bob gallu ddangos eu cryfderau a thrwy chwarae tîm ddatblygu'r ymdeimlad o berthyn ac o gyfrifoldeb tuag eraill. Canmolwn hefyd gampau unigolion disglair sydd wedi cynrychioli'r Sir a Chymru. Rydyn yn ffodus fod athrawon yn hyfforddi gwahanol dîmoedd yr ysgol a thrwy hynny yn rhoi cyfle i rychwant eang o ddisgyblion gymryd rhan.

Eiddo Coll

Os bydd eich plentyn wedi colli dilledyn neu unrhyw beth arall dylid yn y man cyntaf, ddweud wrth yr athro/athrawes dosbarth. Mae bocsys eiddo coll yn yr ysgol. **Dylid rhoi enwau'r plant ar bopeth.** Ni ddylid dod ag eiddo gwerthfawr/teganau i'r ysgol.

Y CWRICWLWM

Ein Cwricwlwm Cynhwysol

Bydd ein cwricwlwm yn codi dyheadau pob dysgwr. Fel ysgol rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wireddu'r pedwar diben ac i wneud cynnydd ar gyflymder priodol. Rydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY a sut y byddwn yn bodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

Y Pedwar Diben

Mae'r pedwar diben yn sail i'n gweledigaeth ni ac mae ein cwricwlwm wedi ei deilwra i ddatblygu ein plant i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i gyfrannu'n llawn at fywyd a gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Wrth i'n hathrawon ddylunio'r cwricwlwm byddwn yn ystyried y profiadau, sgiliau a'r wybodaeth rydym am i'n plant eu cael, yn ogystal â'r testunau, y gweithgareddau a'r cyd-destunau penodol, a fydd yn cefnogi dysgu orau o fewn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Fe fydd ein ffocws ar y canlynol:

- Beth y dylem ei ddysgu a pham?
- Sut y byddwn yn ei ddysgu? (egwyddorion addysgeg)
- Sut y bydd hyn yn cefnogi ein dysgwyr i wireddu'r pedwar diben?

Meysydd Dysgu a Phrofiad

Mae'r Meysydd Dysgu a Phrofiad wedi eu cynllunio i helpu dysgwyr wireddu'r pedwar diben. Maent hefyd yn caniatáu i athrawon ddatblygu dull mwy integredig o ddysgu. Achubir ar bob cyfle i ddysgwyr fedru gwneud cysylltiadau ystyrion a chryf ar draws gwahanol ddisgyblaethau o fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Celfyddydau Mynegiannol
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Dyniaethau
- Mathemateg a Rhifedd
- Iechyd a Lles

Ceir datganiadau o'r 'Hyn sy'n Bwysig' o fewn pob un Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd a phrofiadau i ddatblygu'r cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau allweddol fel y'u disgrifir yn

y 27 datganiad. Ceir 'Disgrifiadau Dysgu' o fewn pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Maent yno er mwyn rhoi canllawiau ar sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd ar eu taith ar hyd y continwrm dysgu. Caiff y rhain eu trefnu mewn camau cynnydd. Gan taw continwrm yw'r Fframwaith, a bod ein dysgwyr yn gwneud cynnydd ar gyflymder gwahanol, dim ond cysylltiad bras sydd rhwng y camau cynnydd ac oedran.

5 oed - Cam Cynnydd 1
8 oed - Cam Cynnydd 2
11 oed - Cam Cynnydd 3

Fframweithiau Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Fe fydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn gwau trwy ein gwaith thematig. Byddwn yn darparu profiadau cyfoethog a fydd yn dyfnhau dealltwriaeth ein plant o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ACRh

Bydd y dysgu wedi ei selio ar y Cod ACRh sy'n nodi'r elfennau dysgu mandadol ar gyfnodau priodol o safbwynt datblygiad. Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol yn addysgu ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan. Sylfaen ACRh yw helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.

Crefydd Gwerthoedd a Moeseg

Ceir maes llafur cytunedig yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu gan yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

Hawliau Plant-CCUHP

Mae datblygu dealltwriaeth o hawliau plant yn cael ei integreiddio yn ein cwricwlwm. Wrth gynllunio gwersi mae'r athrawon yn achub ar bob cyfle i hyrwyddo hawliau plant.

Asesu a Chynnydd

Diben asesu yn Ysgol y Wern yw cefnogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio'n briodol. Rydym yn sicrhau fod ein prosesau yn adnabod y dysgwyr sydd angen cymorth neu her bellach. Caiff asesu ei integreiddio i brofiad dysgu ac addysgu er mwyn creu darlun a dealltwriaeth holistaidd o gynnydd pob plentyn – ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu, a'i feysydd i'w datblygu – er mwyn i'r wybodaeth honno fynd yn sail i gamau nesaf y dysgu a'r addysgu. Mae cynnydd yn rhan greiddiol o ddysgu ac addysgu a byddwn yn defnyddio'r egwyddorion cynnydd mandadol ar gyfer y cwricwlwm fel sail i'n gweithdrefnau. Fe fydd ein plant yn datblygu dealltwriaeth ddofn o'u cynnydd wrth fod yn weithredol yn y broses e.e

hunan-asesu, asesu cymheiriaid, ymateb i adborth athrawon a chyfrannu i drafodaethau cynnydd.

Bydd pob dysgwr yng Nghymru o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6 yn cael asesiadau personol darllen a rhifedd yn flynyddol.

Cynhelir cyfarfod bob tymor er mwyn i rieni/ofalwyr drafod cynnydd eu plentyn gyda'r athro/athrawes. Mae pob athro/athrawes yn cadw asesiadu manwl am eu plant ac yn trafod targedau unigol gyda rhieni yn ystod y cyfarfod.

Adolygu a Mireinio

Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel rhan o'n gweithdrefnau hunanwerthuso. Byddwn yn myfyrio ar adborth gan staff, dysgwyr, llywodraethwyr a rhieni wrth ei adolygu. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau yn ystod y broses adolygu. Fel rhan o'r broses, byddwn yn parhau i ddarparu dysgu ac addysgu o safon uchel gan gofio pwysigrwydd cynnig profiadau cyfoethog a chofiadwy i'n plant. Byddwn yn gweithio ar lefel ysgol, lefel clwstwr, ac mewn partneriaeth â holl rhanddeiliaid yr ysgol i ddatblygu ymhellach ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd ac i sicrhau continwwm dysgu 3-16 o ansawdd uchel i bob unigolyn.

Yr Awyr Agored

Mae'r cwricwlwm yn pwysleisio'n fawr y dylai staff ddefnyddio'r awyr agored fel ystafell ddosbarth arall lle gall y plant weithio. Mae llawer o resymau dros annog plant i ddefnyddio'r awyr agored e.e. iechyd a ffitrwydd plant yn elwa, cael profiad uniongyrchol o natur- sut mae'r tywydd yn newid, sut mae planhigion ac anifeiliaid yn ymateb i'r gwahanol dymhorau. Mae'r Ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n cynnwys profiadau yn yr awyr agored e.e. Ysgol y Goedwig/Gardd Glyndŵr

Trefniadaeth Dosbarthiadau

Ym mhob adran rhennir y plant i ddosbarthiadau yn ôl eu hoedran. Tu mewn i'r dosbarthiadau hynny ceir grwpiau cymysg o allu. Ar adegau mae'r athro/athrawes yn grwpio yn ôl gallu ar gyfer rhai gweithgareddau er mwyn sicrhau y ddarpariaeth orau ar gyfer disgyblion o bob gallu.

Senedd /Cyngor Ysgol.

Etholir aelodau o blith ein disgyblion i fod yn rhan o bwyllgorau'r ysgol. Cynhelir cyfarfodydd cyson o dan arweiniad athro lle y trafodir materion sydd o bwys i holl blant yr ysgol. Dyma gyfle ardderchog i'n disgyblion leisio barn er mwyn llunio'r ysgol y maen nhw'n eu dyheu.

Mae'r Senedd / Cyngor yr Ysgol yn hyrwyddo y syniad o rannu perchnogaeth a chyfrifoldeb am yr ysgol, argymhell disgyblion i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol, gwella cyfathrebu, lleihau

anfodlonrwydd bwllian a hiliaeth a chodi hunan-barch, hyder a gwella sgiliau gwrandio a siarad. Mae'r ysgol yn ynghlwm â chynllun Cefnogwyr Cyfoedion. Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi eu hyfforddi i roi cyngor (Cyfeillion Clos), helpu a gofalu am blant ar yr iard. Mae'r plant a'u rol yn bwysig i feithrin sgiliau personol a chymdeithasol yn yr ysgol.

Pwyllgor Eco

Rydyn wedi ennill Gwobr y Faner Werdd am fod yn Ysgol Eco effeithiol a'r wobwr Ysgol Masnach Deg. Hanfod y cynllun yw'r pwyslais ar blant yn gweithredu i wella'r amgylchedd a gwneud y penderfyniadau mewn dull ddemocratig.

Y Senedd

Gwahoddir aelod o bob pwyllgor i fod yn aelod o Senedd Y Wern. Trefnir i'r Senedd gwrdd gyda 'r Pennaeth/ Dirprwy i fynegi barn am faterion yn ymwneud â chymuned yr Ysgol.

Trefniadau Cwricwlaidd Arbennig a Threfniadau Eraill A Wneir Ar Gyfer Categoriâu Penodol o Ddisgyblion Gan Gynnwys Y Rhai A Datganiad o Anghenion Addysgol Ychwanegol

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi newid y ffordd y mae plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn cael eu cefnogi.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o 0-25 oed i gefnogi'r gwaith o greu system addysg gwbl gynhwysol lle mae pob dysgwyr yn cael y cyfle i lwyddo a chael mynediad i addysg sy'n bodloni eu hanghenion ac yn eu galluogi i gymryd rhan mewn dysgu, elwa ohono a'i fwynhau.

Nod y ddeddf ADY yw trawsnewid disgwyliadau, profiadau a chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY gan roi barn dysgwyr wrth galon y broses.

O fis Medi 2021, dechreuodd y system hon ddod i rym gyda chyfnod gweithredu graddol o dair blynedd. Mae cyfres o ddolenni a dogfennau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/system-anghenion-dysgu-ychwanegol-ady-canllaw-i-rieni-html>

Os hoffech drafod unrhyw beth yn ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, cysylltwch â **Mrs Confrey** CADY (Cydlunydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant) sy'n cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn yr ysgol.

Cydraddoldeb

Mae Ysgol y Wern wedi'i ymrwyno i weithio tuag at gydraddoldeb waeth beth fo hil, oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, iaith, anabledd, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefyddol neu anghredinwyr, cefndir teuluol neu unrhyw nodwedd unigol sydd yn amharu ar gyfleoedd bywyd person.

Rydyn yn hyrwyddo ymagweddau cadarnhaol tuag at wahaniaeth ac yn meithrin parch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol.

Rydym yn ymrwymedig i greu diwylliant cynhwysol lle caiff pob unigolyn ei werthfawrogi a'r cyfle i gyfranogi fel aelod o'r gymuned Ysgol waeth beth fo'r anabledd neu'r cefndir.

Ni fydd yr ysgol yn goddef unrhyw fath o iaith neu ymddygiad hiliol a allai beri niwed i unrhyw grŵp ethnig neu grŵp hiliol a chaiff ei herio.

Sicrhewn bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'r holl waith cynllunio a gwneud penderfyniadau ar draws holl feysydd yr Ysgol. Rhennir gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiad gyda'r Awdurdod Leol.

Dyletswydd Cyfle Cyfartal i Rai Ag Anableddau

Yn unol â'r ddeddfwriaeth uchod (2007) a'n Cynllun Gweithredu yn yr Ysgol, gwahoddir chi i roi gwybod i'r Pennaeth am newidiadau yn eich amgylchiadau mewn perthynas â'r uchod.

Gallai'r rhain fod yn gysylltiedig â'r canlynol, yng nghyd-destun anabledd eich plentyn neu eich anabledd chi:

- cynnydd eich plentyn yn yr ysgol
- mynediad eich plentyn i'r cwricwlwm a safle
- eich mynediad i'r safle
- unrhyw agwedd arall (ee print bras mewn dogfennau ysgol swyddogol)

Nid oes gorfodaeth arnoch i roi'r wybodaeth hon i'r ysgol.

Cedwir unrhyw wybodaeth a dderbynir yn gyfrinachol.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cydraddoldeb i ddisgyblion, staff ac eraill gan ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol. Mae gwaith adeiladu o fewn ac o gwmpas yr ysgol wedi sicrhau bod yna ddarpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ac anableddau.

Diogelu ac Amddiffyn Plant

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar yr Ysgol i hybu a diogelu lles pob disgybl. Rydym yn cydymffurfio â'r cyfrifoldebau statudol canlynol:

-
- Yn dilyn camau'r Sir, ac adrodd yn syth ar unrhyw achos drwgdybus o gamdrin.
 - Polisi Diogelu Plant sydd yn golygu y bydd efallai angen cyfeirio plentyn at yr asiantaethau lles plant statudol
 - Apwyntio uwch aelod staff (**Mr Aled ap Iwan/ Mrs H. Walker/Ms E Reader**) a llywodraethwr (**Mrs Rebecca Owen**) yn gyfrifol am ddiogelwch plant.
- Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni/gofalwyr cyn cyfeirio'r plentyn.
- Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau.

Tynnu Lluniau

O dro i dro byddwn yn tynnu lluniau'r plant at wahanol ddibenion. Pe na bai rhiant/gofalwr am i lun ei blentyn gael ei dynnu, dylai hysbysu'r Ysgol. **Ni chaniateir i unrhyw riant rhoi llun o blant eraill/staff yr Ysgol ar unrhyw safle gymdeithasol rhwydweithiol heb gysylltu â'r ysgol gyntaf. Mae gan yr Ysgol bolisi cyfryngau cymdeithasol.**

Polisi Gwrth-Fwlian

Mae hawl sylfaenol gan holl aelodau'r Ysgol gael eu parchu gan bawb ac i brofi bywyd hapus yn yr Ysgol. Mae unrhyw fath o fwlian yn hollol annerbyniol. Mae'r Ysgol yn ymateb yn gadarn ac yn drylwyr i bob achos o fwlian. Gwnaiff yr Ysgol pob ymdrech i sicrhau nad yw bwlian yn digwydd. Dylid cysylltu â'r Ysgol ar unwaith pan fo rhieni yn pryderu.

Diogelwch wrth Ddefnyddio'r Rhyngrwyd

Pwrpas mynediad i'r rhyngrwyd mewn Ysgol yw i godi safonau addysgiadol, i gefnogi gwaith proffesiynol y staff ac i wella systemau rheoli a gweinyddu busnes. Mae gan y disgyblion yr hawl i ddefnyddio'r rhyngrwyd gan gynnwys e-bost, ar sail y ffaith eu bod yn ei ddefnyddio'n gyfrifol. Er bod gofidiau wedi bod â dysgwyr yn cael gafael ar ddeunydd amhriodol, rydyn ni'n cymryd camau cadarnhaol i ddelio gyda'r risg o fewn yr Ysgol. Mae ein darparwyr (Cyngor Sir Caerdydd) yn gweithredu system hidlo, sy'n cyfyngu ar fynediad i ddeunydd amhriodol.

Defnyddiwn y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol mewn ffordd gyfrifol er mwyn cefnogi gwaith yr Ysgol. Sylweddolwn bod nifer o rieni/ofalwyr yn defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol a chymwysiadau symudol i siarad â'u ffrindiau e.e. Facebook, Trydar. Cofiwch bod yr hyn yr ydych yn trafod ar y gwefannau uchod ar gael yn gyhoeddus. Yn ôl y gyfraith gall datganiad a wnaethpwyd ar y we, boed yn ddifrifol neu beidio, fod yr un mor ddifrifol â phe bai wedi'i wneud yn wyneb unigolyn.

Cyfathrebu

Cyfathrebwn gyda rhieni a gofalwyr mewn nifer o ffyrdd. Bydd yna groeso i chi drafod neu i gwrdd â'r Pennaeth gan wneud apwyntiad ymlaen llaw os bydd amser yn caniatáu. Os byddwch am gysylltu â'r athro/athrawes danfonwch nodyn ysgrifenedig neu gadewch neges gyda'r ysgrifenyddes os gwelwch yn dda.

Os bydd yna unrhyw fater o bwys i drafod ynglyn â'ch plentyn, neu os byddwch yn dymuno ymgynghori ag aelod o'r staff, dylech gysylltu yn uniongyrchol â'r Pennaeth yn y man cyntaf.

Anfonir cylchlythyron dwyieithog, sy'n cynnwys gwybodaeth ynglyn â'r ysgol, yn wythnosol i rieni a gofalwyr. Fe fydd y cylchlythyron yn cael eu lanlwytho ar brynhawn Dydd Gwener. A wnewch chi ofyn i'r swyddfa os ydych am dderbyn copi caled. Danfonir negeseuon testun i'ch ffôn symudol o dro i dro. A wnewch chi sicrhau eich bod yn trosglwyddo eich rhif cywir i'r

Swyddfa. **Cofiwch ddiweddarau eich manylion cyswllt gyda'r Swyddfa**

Cewch wybodaeth am yr ysgol ar y wefan:

www.ysgolywern.co.uk

Os oes angen eglurhad pellach am unrhyw drefniant/weithgaredd dylid cysylltu gyda Swyddfa'r Ysgol yn hytrach na defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn arbed dryswch.

Codi Tâl

Gofynnir am gyfraniadau i dalu costau cludiant ar gyfer ymweliadau addysgiadol.

Ymweliadau gan gwmni theatr/siaradwyr, rhai clybiau (pan fo darparwyr allanol)

Noddir rhai o'r costau gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Caiff disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 gyfle i dreulio dyddiau yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog a Blwyddyn 4 yng Nghanolfan yr Urdd Caerdydd. Mae'r Ysgol yn gofyn am gyfraniadau am wersi offerynnol ac ymweliadau preswyl. Danfonir y wybodaeth berthnasol i rieni mewn da bryd er mwyn cynnig y cyfle i dalu dros gyfnod o amser. Os oes disgybl yn gymwys i dderbyn cinio am ddim yna ni chodir tâl. Mae'r Ysgol bob amser yn barod i drafod pan fo rhiant/ofalwr yn pryderu am gostau sy'n ymwneud â'r Ysgol. Os felly cysylltwch â'r Pennaeth.

Rôl y Rhieni

Gofynnir i'r rhieni ysgogi eu plant i siarad Cymraeg ar bob cyfle a thrwy hynny gryfhau eu hymwybyddiaeth o berthnasedd a gwerth yr iaith sydd yn cael ei dysgu i'w plant, a chryfhau eu hymrwymiad iddi.

Ysgol Gymraeg ei chyfrwng a Chymreig ei hethos yw Ysgol y

Wern. Mae'n bwysig bod disgyblion a rhieni yn sylweddoli hyn.
Wrth gwrs, y ffordd orau o helpu eich plant i ddysgu yw drwy
wneud yn siwr nad yw'n colli gwersi. Felly, rhowch y dechrau
gorau posibl mewn bywyd drwy wneud yn siwr bod eich plenty yn
mynychu'r ysgol yn ddyddiol.
Bydd eich cefnogaeth chi yn gwneud byd o wahaniaeth.

Dyddiadau'r tymor 2026-2027

	Tymor yn Dechrau	Hanner Tymor Dechrau	Hanner Tymor Gorffen	Tymor yn Gorffen
Hydref	01/09/26	26/10/26	30/10/26	18/12/26
Gwanwyn	05/01/27	8/02/27	12/02/27	19/03/27
Hâf	5/04/27	31/05/27	4/06/27	20/07/27

- Diwrnod HMS 1.9.26 - dim ysgol i ddisgyblion.
- Diwrnodau HMS 19 + 20.07.27 – dim ysgol i ddisgyblion

Diolch i chi am ddarllen ein llawlyfr
